## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gwenidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0701(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Owen John Thomas:**

Ysgrifennaf yn dilyn eich cwestiwn Cynulliad llafar i mi ar 12 Gorffennaf 2005 ar y Gyfarwyddeb Ansolfedd Ewropeaidd. Yn ystod y cwestiynau a ddilynodd dywedoch bod yr oedi wrth ddirwyn i ben cynllun pensiwn ASW yn rhannol oherwydd prinder staff yn y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae fy swyddogion wedi cysylltu â'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n dweud bod y broses dirwyn i ben yn hirfaith oherwydd cymhlethdod y materion dan sylw ac nid oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau yn y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Ategwyd hyn yn fy nghyfarfod diweddar gyda ymddiriedolwyr annibynnol y cynlluniau pensiwn ASW, a soniodd y gall gymryd, mewn rhai achosion, hyd at chwe blynedd i gysoni ffigurau gydag ymddiriedolwyr cynlluniau.

Mae'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi fy sicrhau bod cynlluniau pensiwn ASW yn dal i gael eu trin fel achosion blaenoriaeth a bod pob adnodd angenrheidiol wedi cael eu dyrannu heb unrhyw oedi ar ei ran yntau.